



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017/18





CYNNWYS

1.	**CYFLWYNIAD**	**Tudalen 3**
2.	**CRYNODEB PERFFORMIAD Y CYFARWYDDWR**	**Tudalen 5**
3.	**SUT MAE POBL YN LLYWIO EIN GWASANAETHAU?**	**Tudalen 7**
4.	**HYRWYDDO A GWELLA LLES Y BOBL RYDYN NI'N EU HELPU**	**Tudalen 9**
5.	**SUT RYDYN NI'N GWEITHREDU**	**Tudalen 21**

1. Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017-2018 ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Pwrpas yr adroddiad yw rhoi cyfle i mi ystyried yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni yn 2017-18 a hefyd yr hyn sydd angen ei wneud yn 2018-19 a thu hwnt.

Mae'r pwysau ariannol sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus, ac yn arbennig Llywodraeth Leol, wedi cael sylw eang yn ystod 2017/18. Bu Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili yn gyfrifol am orwario tua £150,000 yn erbyn cyllideb o £80m, ac mae hyn yn cynrychioli gorwariant o ryw 0.2%.

Er y gwyddom fod poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu y bydd pwysau cynyddol ar y galw am ein gwasanaethau, gwelwyd sawl ffactor arall sydd wedi effeithio'n ddirfawr ar ein gallu i gadw at ein cyllideb.

- Cymhlethdod achosion - yn ogystal â chynnydd yn nifer y bobl hŷn sydd angen ein gwasanaethau, mae ein gallu i gadw pobl yn eu cartrefi yn hirach yn golygu bod angen pecynnau gofal sy'n gynyddol fwy ac wrth gwrs, yn ddrutach.

- Costau Gwasanaethau - mae newidiadau mewn deddfwriaeth cyflogaeth yng Nghymru yn golygu bod cost prynu nifer o'r gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol.

- Plant sy'n Derbyn Gofal - fel ymron i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru mae CBS Caerffili wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n dod i'w ofal. Mae'r niferoedd cynyddol hyn ynghyd â phrinder llety addas wedi gweld costau yn y maes hwn yn cynyddu'n sylweddol.

Mae'r arian ychwanegol a ddyrannwyd i Wasanaethau Cymdeithasol gan yr awdurdod wedi golygu ein bod, hyd yma, wedi gallu rheoli'r pwysau hynny drwy beidio â llenwi swyddi gwag a lleihau nifer ein staff gweinyddol. Serch hynny, mae'r pwysau parhaus o ran niferoedd, cymhlethdod a chostau yn golygu y bydd angen i ni wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â sut byddwn ni'n blaenoriaethu ac yn darparu gwasanaethau o hyn ymlaen.

Er bod pwysau ariannol yn her aruthrol, mae materion eraill sy'n dod i'r amlwg yn achosi'r un math o ben tost. Mae hi'n gynyddol anodd recriwtio a chadw staff mewn rhannau penodol o'r gweithlu gofal cymdeithasol. Er bod Gwasanaethau Plant a Iechyd Meddwl wedi bod yn feysydd heriol ar hyd yr amser, rydyn ni bellach yn gweld meysydd fel Gofal Cartref yn dod yr un mor heriol. Mae hyn yn broblem genedlaethol sy'n effeithio ar awdurdodau lleol, y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol. Un o ganlyniadau hyn yw bod darparwyr gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd darparu pecynnau gofal, yn enwedig pan fydd eu hangen nhw ar fyr rybudd.

Hefyd, mae'r farchnad o ran y sector annibynnol yn gynyddol fregus. Mae costau cyflogaeth uwch a'r wasgfa ariannol ar gyllidebau awdurdodau lleol wedi golygu ein bod wedi cael achosion lle mae'r cyfrifoldeb wedi'i drosglwyddo yn ôl ac y bu'n rhaid i'r awdurdod ddod o hyd i ddarpariaeth amgen.

Ym mis Chwefror 2018, rhoddwyd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ar waith. System TG genedlaethol yw hon a fydd yn golygu y bydd modd rhannu gwybodaeth ar draws pob un o'r 22 Awdurdod Lleol a'r 7 Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Gwyddom mai un o'r prif rwystrau i gydweithio rhwng yr Asiantaethau yw ein gallu i rannu gwybodaeth. Bydd WCCIS yn fodd o oresgyn y rhwystr sylweddol yma.

Yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17, cyfeiriais at ein cynnydd wrth wireddu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Un o brif elfennau'r Ddeddf oedd y cynnydd tuag at integreiddio gwaith rhanbarthol rhwng Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd. Dros y 12 mis diwethaf, gwnaed llawer o gynnydd wrth sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf. Er mwyn helpu pennu blaenoriaethau'r Bwrdd, mae asesiad anghenion y boblogaeth, cynllun ardal ac adroddiad blynyddol wedi'u cynhyrchu. Mae modd eu gweld ar wefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol www.gwentrpb.wales

Ym mis Ionawr 2018, newidiodd y Cyngor rai o gyfrifoldebau rhai o'i Uwch Reolwyr. O ganlyniad, mae Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai wedi'u dwyn ynghyd o dan fy reolaeth i. Mae hyn yn amserol iawn gan mai un o brif heriau ein poblogaeth sy'n heneiddio yw sicrhau bod pobl yn byw mewn cartref addas. Rwy'n edrych ymlaen at sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl wrth ddod â dau o feysydd yr Awdurdod Lleol ynghyd.

2. Crynodeb Perfformiad y Cyfarwyddwr

Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o gynnal adolygiad sylweddol o fframwaith mesur perfformiad Gofal Cymdeithasol. Mae Caerffili yn llwyr gefnogol i'r adolygiad hwn ac mae swyddogion allweddol yn mynychu gweithdai a chyfarfodydd y grŵp llywio. Heb fframwaith perfformiad cenedlaethol, rydyn ni'n parhau i gasglu gwybodaeth perfformiad leol ac isod rhestrir rhai o'r prif fesuriadau:

Mesuriadau Perfformiad 2017-2018

Gwasanaethau Oedolion:

Mesur	Canlyniadau 2016/17	Canlyniadau 2017/18
% yr ymholiadau diogelu oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnd	92.46	92.61
Cyfradd yr achosion o oedi mewn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd	2.86	5.65
% o oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth wedi'i leihau 6 mis yn ddiweddarach	27.42	35.56
% o oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac sydd heb unrhyw becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach	85.48	64.44
Yr amser, ar gyfartaledd, y caiff oedolion (65 oed neu'n hŷn) gymorth mewn cartrefi gofal preswyl	125.5	157.67
Oedran, ar gyfartaledd, oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl	83.77	83.06
% yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth ers 6 mis	94.74	90.31

Gwasanaethau Plant:

Mesur	Canlyniadau 2016/17	Canlyniadau 2017/18
% yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant oddi mewn i'r terfyn amser statudol	95.12	93.39
% y plant sy'n cael cymorth i barhau i fyw gyda'r teulu ar 31ain Mawrth	72.9	Wedi'i lenwi gyda data cyfrifiad LAC
% y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd i'w cartrefi o ofal yn ystod y flwyddyn	12.88	Wedi'i lenwi gyda data cyfrifiad LAC
% y plant wedi'u cyn-gofrestru ar Gofrestrau Diogelu Plant awdurdodau lleol	5.05	2.40
Yr amser, ar gyfartaledd, i'r holl blant ar Gofrestr Diogelu Plant yn ystod y flwyddyn	291.09	268.58
% y plant yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 2	58.90	59.72

% y plant yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4	15.49	5.33
% y plant sy'n cael eu gweld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis o fod yn derbyn gofal	43.86	75.58
% y plant sy'n derbyn gofal ar 31ain Mawrth a gofrestrwyd gyda meddyg teulu o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau eu lleoliad	100	100
% y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi newid 1 neu fwy o ysgolion, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod yn derbyn gofal, nad oedd yn sgil trefniadau trosglwyddol yn ystod y flwyddyn hyd 31ain Mawrth	11.11	10
% y plant sy'n derbyn gofal ar 31ain Mawrth sydd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn	12.60	Wedi'i lenwi gyda data cyfrifiad LAC

Pobl ifanc sy'n gadael gofal:

Mesur	Canlyniadau 2016/17	Canlyniadau 2017/18
% y bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal	65.96	51.16
% y bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal	51.35	60.78

Bydd cynnal, ac yn wir, gwella perfformiad ar adeg o gyfyngiadau ariannol yn her anferth a bydd angen gwneud dewisiadau gofalus o ran y meysydd hynny lle y bydd angen i ni wella perfformiad a'r meysydd hynny lle bydd cynnal lefelau perfformiad yn llwyddiant ynddo'i hun.

3. Sut mae pobl yn llywio ein gwasanaethau?

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili yn ymrwymedig i sicrhau y bydd pobl yn gallu lleisio'u barn, boed hynny am y modd y caiff gwasanaethau eu datblygu a'u darparu yn y dyfodol neu am wasanaeth maen nhw'n ei dderbyn ar hyn o bryd. Ymhlith enghreifftiau o sut rydyn ni'n gwneud hyn mae: cynnal arolygon, prosesau monitro contractau, ymweliadau Unigolyn Cyfrifol, cwynion ac adborth, digwyddiadau ymgynghori ac adborth gan Arolygiadau.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob Awdurdod Lleol gynnal arolwg o 25-30% o'u trigolion oedd yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth yn ystod Medi 2017. Dyma ganlyniadau Caerffili:

Gwasanaethau Oedolion:

- ✓ **Dywedodd 87% eu bod yn byw mewn cartref oedd yn cefnogi eu llesiant.**
- ✓ **Dywedodd 77% eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw gamdriniaeth, niwed corfforol neu o ddisgyn yn eu cartrefi a thu allan eu cartrefi.**
- ✓ **Dywedodd 74% fod ganddyn nhw'r cyngor a'r wybodaeth iawn pan fydd angen hynny arnyn nhw**
- ✓ **Dywedodd 83% eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth eu bod wedi'i dderbyn.**

Gwasanaethau Plant:

- ✓ Dywedodd 89% eu bod yn byw mewn cartref lle roedden nhw'n hapus.
- ✓ Dywedodd 81% eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal lle maen nhw'n byw.
- ✓ Dywedodd 92% eu bod yn teimlo'n ddiogel, er enghraifft, bod rhywun yn gofalu amdanyn nhw, a'u bod yn ddiogel rhag unrhyw un a allai eu brifo neu eu trin yn wael yn eu cartrefi a thu allan eu cartrefi.
- ✓ Dywedodd 77% eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r cyngor iawn pan oedd ei angen arnyn nhw

Gofalwyr:

- ✓ Dywedodd 84% eu bod yn gwybod â phwy y dylen nhw gysylltu ynglŷn â'u cymorth
- ✓ Dywedodd 70% fod ganddyn nhw'r wybodaeth a'r cyngor iawn pan oedd ei angen arnyn nhw
- ✓ Dywedodd 87% eu bod wedi'u cynnwys mewn penderfyniadau am y modd y darperir y gofal a'r cymorth i'r person roedden nhw'n gofalu amdanynt
- ✓ Dywedodd 75% eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl ofalu.

Cynhelir cyfarfodydd ymgysylltu cyfnodol rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Uwch Dîm Rheoli a'r Aelod Cabinet. Mae'r prif weithgareddau yn ystod 2017/18 wedi cynnwys:

Gwasanaethau Plant:

- Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal i Blant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Gadael Gofal - cwblhau Hunanasesiad ym mis Ionawr 2018 gyda 'Sesiwn Her' ddilynol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Ebrill.

Gwasanaethau Oedolion:

- Arolygiad ar y Cyd gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ar gyfer de'r fwrdeistref, gydag adborth cadarnhaol, cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella
- Cwblhawyd arolygiad blynyddol o'r holl wasanaethau cofrestredig ar gyfer gofal yn y cartref a gofal hirdymor yn y fwrdeistref

Roedd yr holl adroddiadau ar gyfer yr arolygiadau uchod yn gadarnhaol ac er eu bod yn nodi meysydd i'w datblygu ymhellach yn hytrach na meysydd nad oedd yn cydymffurfio, roedden nhw'n cydnabod y cynnydd da oedd yn digwydd ar draws y meysydd gwasanaeth. Mae pob adroddiad ar gael i'w weld ar wefan yr Arolygiaeth http://ciw.org.uk/our-reports/?lang=cy

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili yn derbyn cwynion ac adborth cadarnhaol am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Mae dull cyflym ac effeithiol o ymdrin â chwynion yn arfer gennym ac o ganlyniad mae modd datrys mwyafrif y problemau mor gynnar ag sy'n bosibl.

Yn ystod 2017/18, derbyniodd y Gyfarwyddiaeth 118 o gwynion Cam 1. Roedd 39 (33%) yn ymwneud â Gwasanaethau Oedolion, 76 (64%) yn ymwneud â Gwasanaethau Plant, a 3 (3%) yn ymwneud â Strategaeth Gwasanaethau a Chymorth Busnes. Mae hyn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol lle bu dosbarthiad eithaf cyfartal ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Mae'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cofnodi a yw cwynion yn cael eu cadarnhau, eu cadarnhau yn rhannol neu ddim o gwbl. Mae hyn yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth i nodi unrhyw themâu a thueddiadau o'r canfyddiadau er mwyn gwella arferion yn y dyfodol a nodi unrhyw achosion prin o arfer gwael y dylid talu sylw iddynt o bosibl. O'r 118 o gwynion Cam 1 a dderbyniwyd, cofnodwyd y canlyniadau yma:

- 3 chwyn yn parhau a heb eu cau hyd yma
- Cafodd 11 o gwynion eu cau ar ôl i'r mater gael ei ddatrys yn fuan, neu drwy gyfeiriad at brosesau eraill e.e. achos cyfreithiol
- Cadarnhawyd 4 cwyn
- Cadarnhawyd 5 cwyn yn rhannol
- Ni chadarnhawyd 95 o gwynion

Derbyniodd y Gyfarwyddiaeth un cais yn unig i fynd â'r broses gwynion i Gam 2, sef ymchwiliad ffurfiol. Mae hyn yn ostyngiad o 66% ar y flwyddyn flaenorol lle cafwyd 3 Ymchwiliad Cam 2. Roedd y cais Cam 2 ynghylch mater yn ymwneud â Gwasanaethau Plant ac ni chafodd ei gadarnhau.

Hefyd, cysylltodd 8 o gwsmeriaid ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn ostyngiad o 43% ar 2016/17. O'r 8 a aeth drwy'r broses:

- Caewyd 1 yn ystod y cyfnod ymchwiliad lleol gan na allai'r Ombwdsmon ganfod rheswm i ymchwilio
- Caewyd 5 ar ôl i'r Ombwdsmon gael ei fodloni bod y Gyfarwyddiaeth wedi rheoli'r broses gwynion yn briodol
- Aeth 2 i ymchwiliad llawn, a'r canlyniadau oedd bod un, yn ymwneud ag achos hanesyddol yn 2011, wedi'i gadarnhau. Ni chadarnhawyd y llall.

4. Hyrwyddo a gwella lles y bobl rydyn ni'n eu helpu

Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol mae pobl am eu cyflawni

Drwy gydol 2017/18 mae Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Caerffili wedi parhau i gynnal 'sgyrsiau ystyrlon' gyda defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr ynglŷn â beth sy'n bwysig iddyn nhw yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae staff y Gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac wedi'i ddarparu gan Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC). Mae 'sgyrsiau ystyrlon' yn dechrau gyda staff y Gwasanaeth y tro cyntaf bydd rhywun yn cysylltu â ni. Mae'r sgyrsiau hyn yn seiliedig ar gryfderau, gan weithio gyda phobl i adennill neu i gynnal eu hannibyniaeth a defnyddio eu sgiliau eu hunain a'u rhwydweithiau i sicrhau'r canlyniadau maen nhw'n eu dymuno ble bynnag y bo'n bosibl. Mae'n bwysig cydnabod mai gan weithwyr proffesiynol y daw mwyafrif y cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Plant ac o ganlyniad nid yw'r sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig' gyda'r plentyn a/neu'r teulu yn gallu digwydd hyd nes y bydd asesiad ar gyfer Gofal a Chymorth wedi dechrau.

Egwyddor arweiniol i Wasanaethau Cymdeithasol Caerffili yw hyrwyddo a chynnal annibyniaeth. Ar gyfer Gwasanaethau Plant, mae hyn yn golygu cefnogi teuluoedd i aros ynghyd ac i gynnal plant yn eu cartrefi a'u cymunedau ble bynnag y bo'n ddiogel i wneud hynny. Mae hyn wedi'i ategu gan asesiadau prydlon o angen a datrysiadau creadigol yn cael eu hystyried er mwyn cadw teuluoedd ynghyd. Cwblhawyd 98% o'n hasesiadau oddi mewn i'r amserlen statudol.

Doeddwn i ddim yn siŵr beth oedd ei angen arna i pan ffoniais, ond rydych chi wedi fy helpu i wybod beth sydd angen i mi wneud nesa

Er bod gan rai teuluoedd efallai farn negyddol am Wasanaethau Cymdeithasol i Blant ar y dechrau, rydyn ni'n sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr yn chwarae rhan lawn yn y broses asesu a'u bod yn helpu i lunio a dylanwadu ar eu cynlluniau gofal a chymorth. Mae gweithio fel hyn yn helpu i wella'r berthynas waith dros amser.

Mae'r cymorth dw i wedi'i dderbyn wedi cadw'r teulu gyda'i gilydd - alla i ddim diolch digon i chi

Rydyn ni wedi parhau i weithredu'r gronfa ddata llesiant dinasyddion genedlaethol, DEWIS, fel y gall pobl gael gafael mewn gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan yn hytrach na'u bod yn gorfod ffonio Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu siarad â rhywun proffesiynol pan fyddai'n well ganddyn nhw beidio. Rydyn ni wedi penodi swyddog arwain i ddatblygu DEWIS ymhellach.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae nifer o enghreifftiau da o ymgynghori gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw gyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau neu'n cael lleisio'u barn, mae Eiriolwr Annibynnol ar gael i bob plentyn a all roi cymorth iddyn nhw mewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Mewn Gwasanaethau Oedolion, pan fydd angen asesiad wyneb yn wyneb ar bobl gan ein Timau Rheoli Asesiadau Gofal, ein nod yw sicrhau bod y person wrth wraidd y broses, gan ddatblygu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau y gall darparwyr gwasanaethau eu defnyddio i ddatblygu cynlluniau personol sy'n adlewyrchu dewisiadau'r unigolion gan symud i ffwrdd o weithgareddau'n seiliedig ar amser ac ar dasgau.

Yn ein cartrefi preswyl rydyn ni wedi bod yn gweithio ar gynlluniau gwasanaeth unigol, o'r enw "Dyma fi". Caiff y cynlluniau hyn eu datblygu dros amser wrth i'r staff ddod i adnabod y trigolion gan adlewyrchu'r person unigol.

Yn ystod 2017/18, nid oedd 95% o'r oedolion a dderbyniodd gyngor a chymorth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto o fewn y 6 mis dilynol. Mae hyn yn neges cadarnhaol gan ei fod yn awgrymu bod y cyngor a'r cymorth a roddwyd wedi helpu'r unigolion i gynnal eu hannibyniaeth, eu dewis a'u rheolaeth dros eu bywydau.

Rydyn ni'n parhau i ddefnyddio ein gwelyau asesu yng nghartrefi preswyl Tŷ Clyd A Thŷ Iscoed. Mae'r gwelyau hyn yn helpu i atal pobl rhag mynd i'r ysbyty yn ddiangen ac yn eu galluogi i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn brydlon.

Mae'r staff wedi bod yn wych, ac mae'r gofal dw i wedi'i gael yn golygu fy mod wedi gallu mynd yn ôl i fy nghartref fy hun

Mae cefnogi pobl i aros yn annibynnol neu i adennill eu hannibyniaeth yn nod allweddol i bawb sy'n gweithio mewn Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn 2017/18 roedd 85% o oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi bellach heb unrhyw becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach. Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol.

Sut aethon ni i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18:

- Parhau i ymgorffori 'sgyrsiau ystyrlon' yn ein gwaith ynghyd â chynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau - *mae'r hyfforddiant IPC wedi'n cynorthwyo ni i sicrhau bod staff y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn teimlo'n hyddysg ac yn hyderus i ymwneud â dinasyddion*
- Parhau i gefnogi a datblygu DEWIS i sicrhau mai dyma'r safle y bydd pobl yn ei ddewis i gael gafael ar wybodaeth i'w helpu nhw i'w helpu'u hunain - *rydyn ni wedi penodi swyddog arweiniol penodol i hyrwyddo a datblygu defnydd o'r system ymhellach*
- Bydd Caerffili yn arwain ar gaffael Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol i fodloni gofynion y Fframwaith Eiriolaeth Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc - *daeth y gwasanaeth rhanbarthol yn gwbl weithredol ym mis Gorffennaf 2017*

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2018/19?

- Cyflwyno hyfforddiant 'Cyfathrebu Cydweithredol' a gydnabyddir yn genedlaethol i bob tîm rheng flaen yn y Gwasanaethau Plant sy'n canolbwyntio ar alluogi teuluoedd i nodi'r canlyniadau a'r datrysiadau i anawsterau drostyn nhw eu hunain.
- Gweithio gyda chydweithwyr ym maes Iechyd i ymgorffori hyfforddiant llywio gofal a gwaith egwyddorion yn seiliedig ar le mewn meddygfeydd.
- Datblygu system DEWIS ymhellach.

Safon Ansawdd 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol pobl

Mae Caerffili yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phobl a'n partneriaid i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a bydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth i ni i'r dyfodol.

Mae Caerffili yn bartneriaid gweithredol ym Mhartneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd Gwent gyfan sy'n blaenoriaethu datblygiad dulliau integredig o gefnogi plant a phobl ifanc gan gynnwys cymorth therapiwtig i Blant sy'n Derbyn Gofal, dewisiadau cymorth a llety i bobl ifanc sy'n gadael gofal a'r buddsoddiad parhaus yn y Model ISCAN, sef Gwasanaethau Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol ar draws tiriogaeth y Bwrdd Iechyd.

Mae Gwasanaeth Trawma Ymlyniad Gwent gyfan yn cynnig cyngor, ymgynghori a hyfforddiant i dimau gwaith cymdeithasol yng Nghaerffili gyda'r nod o gefnogi plant a phobl ifanc i barhau i fyw gartref neu i barhau mewn lleoliadau maethu sefydlog.

Mae ISCAN wedi'n helpu ni i deimlo ein bod yn bartneriaid cyfartal yn y gwaith o gynllunio ar gyfer fy mab

Hefyd, daeth MIST Caerffili, sef Gwasanaeth Ymyrraeth Therapiwtig amlddisgyblaethol, yn gwbl weithredol yn ystod Hydref 2017. Mae MIST Caerffili yn cefnogi'r Plant a'r bobl ifanc sy'n Derbyn Gofal mwyaf heriol er mwyn atal y lleoliadau rhag chwalu ac osgoi'r angen i blant gael eu gosod mewn darpariaeth breswyl ddrud y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol.

Mewn ymateb i nifer fechan o blant arbennig o heriol, rydyn ni wedi'n hymrwymo i sefydlu ail Gartref i Blant yn y Fwrdeistref Sirol gan ystyried eiddo posibl a recriwtio tîm o staff preswyl i ddechrau yn ystod Gwanwyn 2018. Bydd MIST Caerffili yn darparu cymorth a gwaith ymyrraeth i'r Cartref newydd.

Ar draws Gwasanaethau Oedolion rydyn ni'n parhau i ddatblygu ein Tîm Adnoddau Cymunedol sy'n cynnig ymateb cyflym i anghenion meddygol a chymdeithasol pobl yn ogystal â gwasanaethau cwympiadau ac ailalluogi. Yn ystod 2017-18, roedd 24.42% o bobl wedi cael pecyn gofal wedi'i leihau yn dilyn cyfnod ailalluogi.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi canolbwyntio ar nodi a datblygu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr er mwyn eu helpu yn eu rôl gofalu. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau yn ystod wythnos gofalwyr, fe wnaethon ni wrando ar yr hyn ddywedodd gofalwyr wrthym, gan ddatblygu safleoedd cyfryngau cymdeithasol a chanolbwyntio ar ddigwyddiadau undydd.

Roedd gofalu'n llawn amser am fy ngwraig yn golygu fy mod i'n teimlo'n ynysig - mae eich cefnogaeth wedi newid fy mywyd!

Rydyn ni wedi cynyddu nifer y bobl sy'n ystyried eu hunain yn ofalwyr fwy na 50% o 360 i 546 a chynhaliwyd 82 asesiad gofalwr ychwanegol yn ystod 2017/18.

Rydyn ni'n cydnabod nad yw pobl am aros yn yr ysbyty am hirach nag sydd angen. Felly, rydyn ni wedi cynyddu'r nifer o

ddarparwyr gofal cartref sydd ar ein fframwaith i'n galluogi ni i drefnu mwy o becynnau gofal fel y gellir rhyddhau pobl o'r ysbyty i'w cartrefi cyn gynted ag y byddan nhw'n teimlo'n ddigon da.

Cyfradd yr achosion o oedi mewn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd yn y fwrdeistref oedd 2.86% fesul 1000 o'r boblogaeth.

Mae gan y Cyngor 6 o gartrefi gofal preswyl mewnol ac mae pob un wedi mabwysiadu'r dull Materion Gofal Dementia. Mae dau o'n cartrefi, Brodawel a Thŷ Iscoed, wedi ennill 'statws pili pala' sef y nod a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer arfer da.

Fuaswn i ddim wedi gallu aros gartref heb gefnogaeth y merched - diolch yn fawr

Mae pob un o'n cartrefi wedi cyflwyno ceisiadau ailgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru gyda'r Rheoliadau Arolygu newydd.

Roeddech chi'n gwybod faint roeddwn i am fynd adref ac fe wnaethoch chi fy helpu i wneud hynny

Ar gyfartaledd, oedran yr oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl oedd 83.77 oed.

Yr amser ar gyfartaledd y bydd oedolion (65 oed neu'n hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl, yw 125 o ddiwrnodau, gan amlygu ein hymrwymiad i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo'n bosibl.

Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'n cydweithwyr iechyd mewn timau iechyd meddwl integredig i ddatblygu'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i hyrwyddo llesiant emosiynol ac iechyd meddwl pobl.

Sut aethon ni i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18:

- Parhau i adnabod a chefnogi gofalwyr - *mae niferoedd y gofalwyr sy'n derbyn cymorth wedi parhau i gynyddu ac rydym wedi rhoi rhaglen ar waith o weithgareddau a digwyddiadau i gynnig cymorth seibiant*
- Parhau i weithio mewn partneriaeth i atal achosion diangen o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty, ac i hwyluso'r broses o ryddhau pobl yn brydlon - *datblygu ffyrdd newydd o weithio i hyrwyddo ethos "y cartref gyntaf". Rhoddwyd proses ryddhau ar waith i asesu cynllun peilot yn Ysbyty Ystrad Fawr sydd wedi'i gydnabod gan yr uned ddata fel model o arfer da.*
- Sicrhau gweithredu gwasanaeth MIST Caerffili yn llwyddiannus - *daeth y gwasanaeth yn gwbl weithredol yn ystod hydref 2017 ac mae eisoes yn sicrhau arbedion ar y lleoliadau*
- Parhau â'r cyswllt â Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd Gwent - *mae cyllid grant ICF wedi'i ddefnyddio i'w lawn botensial gydag adolygiad cynhwysfawr o'r modd y caiff Gwasanaethau CAMHS eu darparu ar draws Gwent*
- Pennu cwmpas y potensial i ddatblygu darpariaeth breswyl wedi'i theilwra yn y Fwrdeistref – *gwnaed ymrwymiad i ddatblygu ail Gartref i Blant yng Nghaerffili*

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2018/19:


- Parhau i adnabod a chefnogi gofalwyr i'w galluogi i barhau yn eu rôl gan ddefnyddio'r gronfa Gofal Canolraddol i sicrhau'r cyfleoedd gorau i ddatblygu gwasanaethau.
- Gweithredu Deddf Cofrestru ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
- Sefydlu ail Gartref i Blant ar gyfer plant a phobl ifanc Caerffili

Safon Ansawdd 3 – Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Mae diogelu yn fater i bawb, ac mae'n thema allweddol drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei chyfanrwydd.

Mae diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth gorfforaethol ac yn gyfrifoldeb corfforaethol. Caiff Bwrdd Diogelu Corfforaethol trawsgyfarwyddiaeth ei arwain gan Wasanaethau Plant a chaiff ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai. Mae Polisi Diogelu Corfforaethol wedi'i roi ar waith ac mae rhaglen o hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ar waith. Mae gan bob maes gwasanaeth Swyddog Diogelu Penodedig a chynhelir grwpiau datblygu arfer cyfnodol er mwyn cefnogi'r swyddogion hyn.

Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol a gaiff ei gyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor ac ar y porth ar gyfer Aelodau Etholedig.



Caiff y trefniadau ar gyfer gwella polisïau, gweithdrefnau ac arferion diogelu ar draws y rhanbarth eu harwain gan Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru, Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent gyfan a'r Bwrdd Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomesting a Thrais Rhywiol. Caiff y Byrddau hyn eu cefnogi gan Uned Busnes wedi'i hariannu gan y partneriaid statudol a'u cynnal gan Gaerffili. Mae gan y Byrddau strwythur llywodraethiant clir a chaiff eu gwaith ei gefnogi gan set o is-grwpiau. Mae Caerffili yn bartneriaid gweithredol ar y Byrddau hyn.


Cytunodd y Byrddau i sefydlu Grŵp Adolygu Achosion Oedolion a Phlant ar y cyd i ystyried pob cyfeiriad at Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant. Mae hyn wedi cyfoethogi dysgu ar y cyd ar draws y ddau sector ac wedi galluogi iddyn nhw ddatblygu gwell cydweithio ar draws y rhanbarth.

Yn y Cyngor ei hun, mae'r cyfrifoldeb am holl waith diogelu plant, oedolion ac addysg wedi'i leoli yn Gwasanaethau Plant. Er bod y meysydd gwasanaeth hyn yn rhai unigol, maent oll wedi'u rheoli gan un Rheolwr Gwasanaeth ac o ganlyniad mae capasiti a chryfder y gwasanaethau wedi gwella. Caiff penderfyniadau eu gwneud ar bob cyfeiriad o fewn 24 awr gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gweithdrefnau statudol.

Mae ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf ym meysydd diogelu fel a ganlyn:

- Cwblhawyd 92.5% o ymholiadau diogelu oedolion o fewn 7 diwrnod
- Adolygwyd 2,315 o Gynlluniau Gofal a Chymorth Gwasanaethau Oedolion
- Cynhaliwyd 98% o'r Cynadleddau Diogelu Plant cychwynnol o fewn yr amserlen statudol
- Cynhaliwyd 98% o'r holl Adolygiadau Diogelu Plant o fewn yr amserlen

- Mae Gweithiwr Cymdeithasol penodedig gan 100% o blant ar y Gofrestr Diogelu Plant
- Mae Gweithiwr Cymdeithasol penodedig gan 100% o blant sy'n derbyn gofal



Rydyn ni'n parhau i ddarparu hyfforddiant ar 'Gofyn a Gweithredu' i bob aelod o staff rheng flaen fel y gallan nhw adnabod arwyddion o gamdriniaeth ddomestig.

Rydyn ni'n monitro gwasanaethau y byddwn yn eu comisiynu yn ofalus iawn o ran ansawdd y gofal maen nhw'n ei ddarparu ac mae hyn yn cynnwys gofal yn y cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal hirdymor.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2018/19 yn parhau i fod fel a ganlyn:

- Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed fydd blaenoriaeth y Cyngor o hyd ac yn rhan o fusnes craidd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.
- Byddwn yn parhau i rannu dysgu yn sgil Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant ar draws yr asiantaethau

Safon Ansawdd 4 – Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Un o flaenoriaethau allweddol Gwasanaethau Plant a'r Grŵp Rhianta Corfforaethol yw cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal i wireddu eu llawn botensial a sicrhau canlyniadau positif. Mae Tîm Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal penodedig yn darparu cymorth wedi'i dargedu i blant a phobl ifanc ar gyfnodau allweddol yn eu haddysg. Yn ogystal â hyn, caiff gweithgareddau allgyrsiol a thiwtora eu hariannu i gefnogi plant i wireddu eu llawn botensial. Mae lefelau presenoldeb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion cynradd ac uwchradd 96% a 92% fel ei gilydd a hynny'n sylweddol uwch na'r targed a bennwyd gan y Cyngor. Mae cyfraddau eithrio plant sy'n derbyn gofal o'r ysgol yn isel iawn ac rydyn ni'n eu hadolygu'n barhaus.

Doeddwn i ddim yn sylweddoli ar y pryd ond yr ysgol oedd yr unig beth roeddwn i'n gallu dibynnu arno pan oeddwn i'n byw gartref

Mae gan Gaerffili enw da am gefnogi pobl ifanc i fynd ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch ac mae nifer o bobl ifanc sy'n gadael gofal wedi ennill graddau ac mae rhai wedi derbyn cefnogaeth i ennill doethuriaethau.

Mae 66% o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal .

Rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n bwysig i bobl fod yn fwy hunan-gynhaliol a chynnal eu hannibyniaeth er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawnach mewn cymdeithas a'u cymuned leol.

Yn 2017/18, derbyniodd y Cysylltwyr Cymunedol 322 o gyfeiriadau, ac roedd 84% o'r rheini wedi'u datrys i bobl o ran eu galluogi i wneud "yr hyn sydd o bwys iddyn nhw".

Mae'r Cysylltwyr Cymunedol wedi datblygu cronfa ddata o weithgareddau sy'n digwydd mewn ardaloedd lleol fel bod modd iddyn nhw gyfeirio neu hebrwng pobl i glybiau neu weithgareddau sydd o ddiddordeb iddyn nhw fel 'gwau a chlonc', dosbarthiadau celf, grwpiau crefft, sied y dynion a chlybiau cinio.

Roeddwn i mor unig ac ynysig cyn i chi roi help i mi - doeddwn i ddim yn gwybod faint oedd yn digwydd y tu allan i'm drws ffrynt - mae wedi newid fy mywyd.

Rydyn ni'n ymrwymedig i wreiddio'r system wybodaeth DEWIS fel y gall pobl gael gafael mewn gwybodaeth drostyn nhw eu hunain 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Buaswn i byth wedi meddwl gofyn am help, ond nawr dw i mor falch fy mod i wedi gwneud.

Mae cefnogi gofalwyr yn allweddol. Rydyn ni wedi datblygu system cyfnewid sgiliau gofalwyr sy'n mynd o nerth i nerth. Mae gofalwyr yn cysylltu â'i gilydd ac yn cyfnewid sgiliau, er enghraifft, fe wnaeth un gofalwr waith smwddio i un arall yn gyfnewid am wasanaeth gwarchod er mwyn eu galluogi nhw i fynd i barti pen-blwydd.

Mae gan lawer o'n gofalwyr sgiliau artistig a thechnegol anhygoel ac maen nhw'n fodlon iawn addysgu'i gilydd. Caiff hyn ei adlewyrchu ar dudalen facebook ein gofalwyr sydd â 141 o aelodau. Mae 61 o bobl yn dilyn Tîm Gofalwyr y Cyngor ar Twitter. Rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu cylchlythyr gofalwyr sydd ar gael yn electronig ac fel copi caled.

Sut aethon ni i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18:

- Parhau i ymgorffori 'sgyrsiau ystyrlon' yn ein gwaith ynghyd â chynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau - *mae'r hyfforddiant IPC wedi'n cynorthwyo ni i sicrhau bod staff y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn teimlo'n hyddysg ac yn hyderus i ymwneud â dinasyddion*
- Parhau i gefnogi a datblygu DEWIS i sicrhau mai dyma'r safle y bydd pobl yn ei ddewis i gael gafael ar wybodaeth i'w helpu nhw i'w helpu'u hunain - *rydyn ni wedi penodi swyddog arweiniol penodol i hyrwyddo a datblygu defnydd o'r system ymhellach*

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2018/19?

- Gwneud defnydd llawn o'r arian grant ICF i gynnal prosiect 'Sgiliau Bywyd' i bobl ifanc sy'n gadael gofal
- Parhau i weithio gyda Materion Gofal Dementia i ddatblygu rhaglen benodol ar gyfer Materion Gofal Dementia Caerffili Caiff hyn ei weithredu drwy hyfforddi hyd at 12 person ar draws y fwrdeistref

Safon Ansawdd 5 - Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal cydberthnasau personol, teuluol, domestig iach

Rydyn ni am gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion i fod mor weithgar yn gymdeithasol ag sy'n bosibl er mwyn iddyn nhw deimlo y gallan nhw wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain ac i'w cadw nhw'n ddiogel.

Yn ystod 2017/18, fe wnaethon ni barhau i wreiddio'r 'sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig' ar draws y Gyfarwyddiaeth gan ddefnyddio'r hyfforddiant IPC cenedlaethol i gynorthwyo staff i wella eu sgiliau i ganolbwyntio ar ganlyniadau, cryfderau ac asedau pobl, eu teuluoedd a'u rhwydweithiau.

Rydym yn cydnabod bod sicrhau bod gan bobl berthnasau boddhaus gyda'r rheini maen nhw'n agos atyn nhw yn bwysig iawn i'w lles.

Ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc, mae cynnal cyswllt gyda'u teuluoedd a'u cymunedau cartref yn bwysig iawn ac mae Gwasanaethau Plant yn gwneud popeth y gallan nhw i sicrhau bod trefniadau cyswllt yn diwallu anghenion pawb dan sylw a'u bod nhw'n ddigwyddiadau positif.

Mae cyswllt gyda fy mhlant yn achubiaeth i mi - diolch yn fawr

Yn ein Gwasanaethau Oedolion, rydyn ni'n parhau i recriwtio mwy o ofalwyr i'n Cynllun Cysylltu Bywydau i'n galluogi ni i gynnig mwy o ddewis a chynyddu nifer y lleoliadau y gallwn ni eu cynnig mewn cartrefi teuluol i bob grŵp client. Rhyddhawyd arian hefyd er mwyn caniatáu addasiadau i gartrefi pobl, fel rampiau a chawodydd i alluogi pobl i barhau i fod yn annibynnol.

Mae cymorth i ofalwyr wedi gwella gymaint yng Nghaerffili - mae'n wych bod gennym weithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol fel ein bod yn teimlo nad ydyn ni ar ein pennau ein hunain.

Rydyn ni wedi sefydlu Grwpiau Gofalwyr ar draws y fwrdeistref sirol i alluogi gofalwyr i gwrdd yn gymdeithasol dros baned. Mae ein Tîm Gofalwyr yn mynd i lawer o ddigwyddiadau i hyrwyddo eu gwasanaeth ac mae cydnabyddiaeth wedi'i rhoi i'w hymdrechion.

Sefydlwyd cronfa fechan fel y gallai gofalwyr anffurfiol wneud cais am grantiau i'w helpu gyda'r categorïau canlynol:

- Hanfodion Gofalwyr
- Seibiant i Ofalwyr
- Mynediad Gofalwyr
- Sgiliau Gofalwyr

Gyda'n partneriaid, cytunwyd diwygio'r Strategaeth ar gyfer Anableddau Dysgu ac yn ystod cyfarfodydd ymgynghori gyda grwpiau dinasyddion, dywedodd pobl wrthym fod perthnasau yn bwysig iawn iddynt. Mae hyn bellach yn elfen greiddiol o'r sgyrsiau am 'yr hyn sy'n bwysig' ac mae adolygiadau yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

Rydych chi wedi fy helpu i wneud mwy o benderfyniadau drostof fi fy hun ac rydych chi yno i fy nghefnogi pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le

Rydyn ni'n cydnabod bod gennym fwy o waith i'w wneud o ran cefnogi cydberthnasau a bydd hyn yn flaenoriaeth i ni wrth symud ymlaen, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2018/19 ymlaen.

Yn ein Gwasanaethau Plant, ble bynnag y bo'n bosibl a phan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny, byddwn ni'n sicrhau bod plant yn cael eu lleoli mor agos ag sy'n bosibl at eu cymunedau cartref er mwyn cefnogi eu cysylltiadau â'u teulu a'u cartref.

Mae gofynion cynyddol arnom i recriwtio mwy o ofalwyr maeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Rydyn ni'n parhau i gynnal ymgyrch recriwtio ar y radio ac mae hyn wedi'n helpu ni i gynyddu nifer yr ymholiadau rydyn ni'n eu derbyn a'r asesiadau rydyn ni'n eu cynnal.

Mae'r baich gwaith yn ein Gwasanaethau Plant wedi parhau i gynyddu yn ystod 2017/18 yn enwedig mewn achosion llys sy'n golygu bod niferoedd cynyddol o blant yn Derbyn Gofal. Mae hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau ac er ein bod yn gweithio'n galed i atal plant rhag dod i mewn i'r system ofal mae'n rhaid i ni gydnabod y berthynas rhwng lefelau tlodi yn y fwrdeistref sirol ac amddifadedd, camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae'r baich gwaith cynyddol nid yn unig yn gosod baich cynyddol ar adnoddau ariannol, ond hefyd ar adnoddau staffio ac mae recriwtio gweithwyr cymdeithasol i Wasanaethau Plant yn dod yn gynyddol heriol.

Dw i'n dweud wrth fy ffrindiau fy mod i'n byw gyda fy mobryd - does dim angen iddyn nhw wybod fy mod i mewn gofal

Sut aethon ni i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18:


- Recriwtio 19 o ofalwyr ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth Cysylltu Bywydau
- Adolygu a diweddaru'r Strategaeth Anableddau Dysgu a chefnogi'r Siarter Anabledd Dysgu
- Parhau i flaenoriaethu recriwtio gofalwyr maeth i ddiwallu'r cynnydd yn y galw - *mae nifer yr ymholiadau a'r asesiadau yn cynyddu'n araf ond yn raddol diolch i'r gwelliant yn y gwaith marchnata a hysbysebu*
- Parhau i adnabod dewisiadau amgen i ofal pan fo'n bosibl a datblygu cymorth 'ar ymyl gofal' ymhellach – *rydym wedi buddsoddi arian grant Llywodraeth Cymru ychwanegol i ymestyn y Tîm Cymorth Dwys, gan gynnwys Seicolegydd Plant.*

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2018/19?

- Cyflwyno cynllun Fy Ffrindiau ar draws y fwrdeistref
- Gweithio gyda'r sector iechyd i edrych ar opsiynau ar gyfer datblygu Cysylltu Bywydau o ran teuluoedd i letya pobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl
- Adolygu strwythur talu ffïoedd Gofalwyr Maeth
- Monitro'r anawsterau recriwtio i'n Gwasanaethau Plant yn ofalus

Safon Ansawdd 6 – Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau llesiant economaidd gwell, bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n ateb eu hanghenion

Yn gysylltiedig â Safon Ansawdd 4, mae Gwasanaethau Plant yn cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant gan gynnig cymorth unigol pan fo angen. Caiff plant a phobl ifanc eu hannog i wneud y defnydd gorau o'u hamser hamdden a chânt eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned pan fo'n bosibl.




Mae gan ein Gwasanaethau Plant brotocol gwaith sefydledig gyda'r gwasanaeth Tai i sicrhau y gallwn gynnig cymorth priodol i bobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd. Mae gennym amrywiaeth o lety â chymorth ar gael gan gynnwys darpariaeth a rennir, llety â chymorth a thenantiaethau â chymorth. Rydyn ni'n parhau i adolygu'r ddarpariaeth hon gan chwilio am gyfleoedd pellach ar gyfer datblygiadau newydd.

Mae perfformiad allweddol yn cynnwys:

- Mae gan 100% o Blant sy'n Derbyn Gofal gynllun ar gyfer lleoliad parhaol erbyn yr ail Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal (o fewn 4 mis i fod yn blentyn sy'n derbyn gofal).
- Mae gan 100% o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal weithiwr penodedig i'w cefnogi nhw ac rydym yn cadw mewn cysylltiad â 100% o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal nes eu bod yn 21 oed.
- Mae 66% o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal.

Yn ein Gwasanaethau Oedolion, pan edrychon ni o'r newydd ar y Strategaeth Anableddau Dysgu, cawsom wybod bod ble roedd pobl yn byw yn bwysig iawn iddyn nhw. Roedden nhw'n dymuno annibyniaeth gyda rhywfaint o gymorth. Gan wrando ar y neges hon, dechreuwyd datblygu cyfres o fflatiau yn Heol Ashfield a fydd yn galluogi pobl i gael eu drws ffrynt eu hunain, ond cymorth penodol pan fydd ei angen arnynt. Rydyn ni'n gobeithio bydd pobl yn symud i mewn yn y flwyddyn newydd.



Rydyn ni'n gweithio gyda'n cydweithwyr yn y gwasanaeth Tai i adolygu'r llety presennol sydd ar gael gennym i weld a oes modd ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol er mwyn ymestyn yr amrywiaeth o ddewis i bobl.

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn gweithredu rhaglen Safonau Ansawdd Tai Cymru ac mae Therapyddion Galwedigaethol yn cydgysylltu'n uniongyrchol â Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau y caiff anghenion unigolion eu diwallu o ran darparu addasiadau fel cawodydd un lefel a rampiau mynediad.

Fel Cyngor rydyn ni'n ymrwymedig i ddatblygu cymunedau sy'n gyfeillgar i dementia fel y gellir cefnogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau bywyd bob dydd fel siopa, mynd i'r banc a bwyta allan. Gallwch weld arwyddion cyfeillion dementia mewn sefydliadau lleol ac mae nifer o bobl yn gwisgo'r bathodyn blodyn glas i ddangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant fel cyfaill dementia.

Mae Gofal Dementia yn bwysig i ni. Rydyn ni'n gwbl ymrwymedig i sicrhau bod pob un o'n gwasanaethau yn gyfeillgar i ddementia. Yn ein cartrefi preswyl, rydyn ni wedi newid yr holl waith papur i fod yn symlach ac i adlewyrchu'r person yn well. Mae hyn yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau personol ac yn gwybod beth mae pobl yn ei hoffi a beth nad ydyn nhw'n ei hoffi.

Gallwch hefyd weld arddangosiadau a themâu gwahanol yn adlewyrchu bywydau blaenorol pobl. Mae'r rhain yn newid yn rheolaidd a gallant adlewyrchu digwyddiadau'r presennol. Mae'r cartrefi bellach wedi'u rhannu'n unedau tai bychan ac mae gan bob un ei dîm o staff fel eu bod yn gallu dod i adnabod y preswylwyr yn iawn.

Ar y dechrau roedd hi'n anodd, ond yn fuan iawn dechreuais wella ac rwy'n teimlo'n gymaint well - dyma fy nghartref i nawr!

Mae amgylchedd ffisegol rhai o'r cartrefi hefyd wedi newid gyda defnydd lliwiau cynradd gan adlewyrchu dewis pobl ar gyfer drws eu hystafell wely ac mae'r ardaloedd cyffredin yn oleuach ac yn haws i'w gweld.

Mae fy ngofalwyr yn deulu estynedig i mi...dw i'n gwybod eu bod yn poeni

Gyda'n partneriaid rydyn ni wedi cynnal peilot i ehangu ein Cynllun Cysylltu Bywydau i edrych ar fenter iechyd sy'n darparu lleoliadau gyda theuluoedd sy'n atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty, a/neu yn hwyluso'r broses o'u rhyddhau o'r ysbyty i gartref teuluol. Mae hyn yn galluogi pobl i gael amser i wella, i dderbyn mwy o ymyriadau therapi ac i dderbyn asesiad o'u hanghenion mewn lleoliad mwy priodol. Mae hyn yn mynd yn ei flaen yn dda gyda theuluoedd yn cael eu hyfforddi a 7 lleoliad yn cael eu trefnu. Rydyn ni'n ymrwymedig i'r model gwahanol hwn o lety.

Sut aethon ni i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18:

- Parhau i weithio'n agos â'r gwasanaeth Tai i sicrhau y caiff unrhyw gyfleoedd i ddatblygu mwy o ddewisiadau llety â chymorth eu hystyried - *rydyn ni'n gweithio'n agos â'r gwasanaeth Tai ac asiantaethau partner eraill i sicrhau ein bod yn sicrhau'r defnydd gorau o bob cyfle ariannu i ddatblygu'r ystod o ddewisiadau llety sydd ar gael yn y Fwrdeistref*
- Parhau i gefnogi pobl i reoli eu tenantiaethau eu hunain a chynnal eu hannibyniaeth - *mae cynnydd mewn cymorth tenantiaeth yn helpu pobl sy'n agored i niwed barhau yn eu cartrefi eu hunain neu i symud allan o lety â chymorth ar lefel uwch*
- Gweithio gyda Phartneriaeth Plant a Theuluoedd Gwent i ddatblygu cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal – *comisiynywd adroddiad pennu cwmpas drwy Brifysgol Oxford Brookes i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu ymagwedd ranbarthol tuag at opsiynau llety â chymorth i'r rheini sy'n gadael gofal*

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2018/19?

- Bydd cyflwyno'r rhaglen Fy Ffrindiau yn caniatáu i bobl ddatblygu cydberthnasau cymdeithasol

5. Sut rydyn ni'n gweithredu

Ein Gweithlu a Sut Rydyn ni'n Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Ein staff yw'n hadnodd mwyaf gwerthfawr; ac mae gweithlu dawnus a chymhellgar yn hanfodol i ddiogelu ac i gefnogi pobl sy'n agored i niwed, gan hybu annibyniaeth a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau. Mae sicrhau bod ymarferwyr ar y rheng flaen a rheolwyr yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda yn hanfodol i lwyddiant ein gwasanaeth. Mae ein gweithlu yn gymharol sefydlog ac yn llwyddo i gadw staff yn dda. Serch hynny, rydyn ni'n wynebu heriau cynyddol o ran recriwtio i dimau penodol yn ein Gwasanaethau Plant a byddwn yn parhau i fonitro hyn yn agos.

Mae gennym Dîm Datblygu'r Gweithlu ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ac maen nhw'n gyfrifol am ddarparu strategaeth hyfforddiant a datblygiad sy'n cefnogi cyfleoedd datblygu i staff ar bob lefel yn ein Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd y materion allweddol ynghlwm â chynllunio'r gweithlu ar gyfer y Gyfarwyddiaeth dros y 12 mis nesaf yn uniongyrchol gysylltiedig â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Er bod y setliad cyllidebol ar gyfer 2017/18 mor ffafriol ag y gallai fod, fe fydd gofyniad yn parhau i ni sicrhau arbedion, a bydd hyn yn ymestyn i 2018/19 a thu hwnt.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu gweithlu'r sector gofal i gyd. Mae'r sector gofal yn cyflogi dros 3,000 o staff gyda thua 50% wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol a 50% wedi'u cyflogi gan y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Ein Hadnoddau Ariannol a Sut rydyn ni'n Cynllunio i'r Dyfodol

Caiff rheoli'r gyllideb ei ymgorffori fel un o swyddogaethau craidd y Timau Rheoli Adrannol a'r Uwch Dîm Rheoli gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Ariannol yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Caiff adroddiadau cyllideb eu trafod yng nghyfarfodydd y Timau hyn yn rheolaidd, ac mae'r timau rheoli hyn yn aelodau allweddol yn y gwaith o ddatblygu strategaeth ariannol y Gyfarwyddiaeth. Mae'r ffocws hwn ar reoli'r gyllideb wedi helpu i sicrhau bod y Gyfarwyddiaeth wedi cyflawni'r targedau arbedion a bennwyd ar gyfer 2017/18.

Mae dadansoddiad o'r gwariant fesul pen y boblogaeth yn dangos bod gwariant Caerffili ar Wasanaethau Plant, Oedolion ag Anableddau Dysgu ac Oedoion 65+ oed yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r gwariant ar Oedolion ag Anableddau Corfforol ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru ond mae'r gwariant ar Oedolion ag Anghenion Iechyd Meddwl yng Nghaerffili tua 56% yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant wedi wynebu pwysau demograffig sylweddol parhaus yn ystod 2016/17. Nodwyd y pwysau hyn yn gynnar iawn ac mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod wedi cymryd ystyriaeth ohonynt o 2017/18. Serch hynny, os bydd y galw am y gwasanaethau yn parhau i dyfu yn ôl y gyfradd a brofwyd ar ddechrau 2017/18, yna bydd y cynnydd cyllidebol a gynhwyswyd yn y Cynllun Ariannol yn annigonol i ariannu'r pwysau ychwanegol hyn mewn costau.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf arwyddocaol mewn galw yn ystod 2017/18 yn y meysydd canlynol:-

- Y sector gofal preswyl annibynnol i blant
- Gofal maeth y sector annibynnol
- Gofal preswyl a nyrsio i bobl hŷn
- Gofal preswyl a nyrsio i bobl ag anableddau dysgu
- Byw â chymorth

Bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth ganolbwyntio ei ymdrechion i reoli galw yn y meysydd hyn er mwyn sicrhau ei fod yn mantoli'r gyllideb yn 2018/19.

Ein Gwaith Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi pwyslais allweddol ar weithio mewn partneriaeth ac i'r perwyl hwn, mae'r awdurdod bellach yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf gyda'r 4 awdurdod lleol arall yng Ngwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Dros y 12 mis diwethaf, gwnaed llawer o gynnydd wrth sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf. Er mwyn helpu pennu blaenoriaethau'r Bwrdd, mae asesiad anghenion y boblogaeth, cynllun ardal ac adroddiad blynyddol wedi'u cynhyrchu. Mae modd eu gweld ar wefan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol www.gwentrpb.wales